

Catchphrase 2002: Ysbyty Brynaber - Week 10

Key language

Conditional tense - Byddwn i etc.
Wrth + pronouns

New words

llawdriniaeth	operation
cyfrifoldeb	responsibility
lladron	thieves
swyddogol	officially
cynnig	an offer
atgoffa	to remind
cwyn	a complaint
eiliad	a second
neges	a message
ar hyn o bryd	at the moment
peiriant	machine
diflas	miserable
lonydd (NW)	roads
tanio	to fire
parablu	to chatter

Main Grammatical Points

Conditional tense

You will hear various forms of the conditional tense in this week's episodes. The conditional is translated as 'would' in English.

The full forms are:

Fyddwn i	I would	Fyddwn i ddim	I wouldn't
Fyddet ti	You would	Fyddet ti ddim	You wouldn't
Fyddai Brian	Brian would	Fyddai Brian ddim	Brian would not
Fyddai hi/e/o	She or He would	Fyddai hi/e/o ddim	She/he would not
Fyddden ni	We would	Fyddden ni ddim	We would not

(note the subtle difference between **fyddwn i** - I would and **fydden ni** - We would)

Fyddech chi	You would?	Fyddech chi ddim	You would not
Fyddden nhw	They would?	Fyddden nhw ddim	They would not

The question and answer follows the usual pattern of Welsh verbs:

Fyddet ti?	Would you?	Byddwn Na fyddwn	Yes (I would) No (I would not)
Fyddai hi?	Would she?	Byddai	Yes (She would)

The form **baswn i** (shortened to **swn i**) is an equivalent north Wales form of **byddwn i**.

We will take a closer look at this form at a later date.

Wrth

■

We've looked at the preposition 'o' and how it changes when used with a pronoun. 'Wrth' meaning 'by' is another preposition which changes with every pronoun. Here's the pattern in full:

Wrtho i
Wrthot ti
Wrtho fe
Wrthi hi
Wrthon ni
Wrthoch chi
Wrthyn nhw

Note that you will hear this form with certain verbs in particular - dweud - dweud wrth - to tell someone.

Agnes says - Wnaeth Brian ddweud wrthot ti? - Did Brian tell you?

The following words are used when the characters discuss hospital matters.

Llawdriniaeth - operation
Gwelliant - improvement
Cadw golwg (ar y claf) - to keep an eye (on the patient)

Useful Expressions

Diffodd

When you switch something off, such as a television, radio or light, in Welsh we say 'diffodd - diffodd y teledu, diffodd y radio, diffodd y golau', you will also hear a translation of 'to turn off' - troi'r teledu ffwrdd/troi'r teledu bant.

Cynilo

Christmas is just around the corner, and Brian complains that people are saving their money rather than buying cars in his showroom.

'to save money' - 'cynilo arian'

N.B. cynilo is to save up for something, to save someone's life is 'achub bywyd'.

Ysbyty Brynaber: Episode 28

Agnes and Jenny are chatting at the hospital. Agnes is somewhat surprised to understand that Brian turned up at the restaurant in Llaniwan. Back home Brian is asked why he had not mentioned the fact that he had seen Jenny and Arwyn Saunders.

Geirfa

llawdriniaeth	operation
clustdlysau	earrings
modrwyau	rings
cyfrifoldeb	responsibility
lladron	thieves
swyddogol	officially
cynnig	an offer
atgoffa	to remind

Golygfa 1

Agnes - Jenny? Shwmai?

Jenny - Yn weddol fach, Agnes...A ti?

Agnes - Mwy na digon i wneud - fel arfer...A problem...

Jenny - Beth felly?

Agnes - Mae Mrs Stuart yn Ward Enlli newydd gyrraedd am lawdrinieth haemorrhoidcotomy 'fory...Ond mae hi'n edrych fel tasai hi'n mynd i gwrdd â'r Frenhines ...

Jenny - O?

Agnes - Wy erioed wedi gweld neb gyda mwy o fodrwyau a chlustdlysau arni...heb son am lwyth o arian yn ei phwrs...

Jenny - Does dim cyfrifoldeb ar yr ysbyty, cofia.

Agnes - Dyna'n gwmws beth ddweddes i wrthi...

Jenny - A beth wnaeth hi ddeud?

Agnes - Dweud bod yn rhaid iddi deimlo ar ei gore! Myn yffach i! Ond beth am ladron, ddweddes i?

Jenny - A beth oedd ei hateb hi?

Agnes - Doedd hi ddim yn credu bod lladron mewn ysbyty.

Jenny - Naif!

Agnes - Naif! Ti'n dweud wrtho i! Rydyn ni'n cael pob siort 'ma yn dy'n ni?

Jenny - Rhan o'r job on'd ydy?

Agnes - Braf i dy weld di nôl, Jenny. Rydyn ni wedi gweld dy eisiau di ar y wards...

Jenny - Dw i ddim yn ôl eto...ddim yn swyddogol beth bynnag...

Agnes - Pryd rwyd ti'n bwriadu ail-gychwyn 'te?

Jenny - Ar ôl y Nadolig roeddwn i'n meddwl...

Agnes - Ac mae Arwyn i ffwrdd yn yr Algarve roeddwn i'n clywed?

Jenny - Ydy. Yn Villamoura. Yn agos at Albufeira lle aeth o a fi am wyliau rhyw wyth neu naw mlynedd yn ôl...

Agnes - Chest ti ddim cynnig mynd gyda fe?

Jenny - Kenneth Evans a'r criw golffio sy'n trefnu'r peth bob blwyddyn. Dw i ddim yn meddwl y basen nhw'n licio fy ngweld i yno, rhywsut...

Agnes - Na, fyddai Brian ddim isie mynd â fi lan i Ffair Geir Birmingham chwaith...

Jenny - Yn hollol...

Agnes - A dweud y gwir wrthot ti, dw i ddim yn credu bydden i eisiau mynd hyd yn oed os bydden ni'n cael y cynnig...

Jenny - Hei, ti newydd fy atgoffa i...

Agnes - Dy atgoffa di o beth?

Jenny - Wnaeth Brian ddweud wrthot ti ei fod o wedi gweld Arwyn a fi yr wythnos diwetha?

Agnes - Yr wythnos ddiwetha? Naddo...Pryd?

Jenny - Nos Fawrth neu nos Ferchar...Dw i ddim yn cofio...

Agnes - Ble 'te?

Jenny - Yn y ty bwyta newydd 'na tu allan i bentref Llaniwan...

Agnes - Yffach! Brian? Yn Llaniwan? Ti'n siwr?

Jenny - Ydw, wrth gwrs fy mod i. Mi gafodd Brian ag Arwyn a fi sgwrs hefo'n gilydd wrth y bar...

Agnes - Llaniwan? Brian? Od. Pam yffach roedd e'n fa'nny?

Golygfa 2

Rhodri - Ond pryd gawn ni fynd i'r ffair? Pryd, mam? Ma' Owain Gwydion wedi mynd yn barod!

Agnes - Paid â haslo fi nawr. Dw i'n fishi'n paratoi swper ...Cer i nôl dy chwaer...Mae'ch pasta chi bron iawn yn barod...A Rhodri?

Rhodri - Beth?

Agnes - Diffodd yr hyrddi-gyrddi 'na'n y stafell fyw, wnei di? At y ford nawr chi'ch dau. Ac eisteddwch yn deidi...

Brian - ...Helo?

Agnes - Brian? Wyt ti nôl...?

Brian - Mae hi'n noson fudur. Ac roedd hi'n dawel iawn yn y gwaith. Ddaeth neb i'r showroom trwy'r p'nawn...

Agnes - Pobol yn safio'u harian ar gyfer y Nadolig...

Brian - Ie. Mae mis Tachwedd yn amser drwg i werthu ceir ...

Agnes - Pasta sôs, Rhodri? Neu oes well gyda ti gaws?

Rhodri - Gawn ni fynd i'r ffair heno, Dad?

Brian - Ddim heno. Nos yfory efallai...Glasiad, Agnes?

Agnes - Pliis. Pam ddwedest ti ddim byd?

Brian - Am beth?

Agnes - Am weld Jenny ac Arwyn yr wythnos diwethaf?

Brian - Jenny ac Arwyn Saunders?

Agnes - Ie.

Brian - Yn lle felly?

Agnes - Yn y restaurant newydd 'na tu fas i Llaniwan...? Pam oeddet ti'n fa'nny 'te?

Brian - Wnes i jyst stopio yna ar fy ffordd adre...

Agnes - O Gaerfyrddin? Yffach! Est ti ddim mas o dy ffordd?

Brian - Do, dwed?...Na...Ddim felly...Ddim go iawn...

Agnes - Pryd yn gwmws welest ti nhw 'te?

Brian - Nos Fercher oedd hi? Dw i ddim yn cofio...

Agnes - Ond roeddwn i'n meddwl dy fod ti wedi cwrdd a Jac Whelan am Chinese nos Fercher...?

Brian - Wel, nos lau oedd hi 'te - dw i ddim yn cofio...Pam? Be sy?

Agnes - Dim...Jyst bod e'n od bod ti heb ddweud dim...

Brian - Agnes, dw i'n gweld cymaint o bobol bob dydd...Dw i ddim yn dweud wrthot ti am bawb dw i'n gyfarfod ...

Agnes - Gan bwyll. Paid â mynd yn grac Brian, dw i'n dy drystio ti'n llwyr...O.K.?

Ysbyty Brynaber: Episode 29

Wendy believes that one of the patients is being discharged prematurely from hospital and feels that she should complain to authorities. Agnes telephones Jenny Saunders to ask some questions about Brian's visit to the restaurant at Llaniwan.

Geirfa

cwyn	a complaint
eiliad	a second
neges	a message
ar hyn o bryd	at the moment

Golygfa 1

Wendy - Dic?

Dic - Ie?

Wendy - Oes eiliad gyda ti?

Dic - Ymmm...Oes...Pam? Beth sy'n bod?

Wendy - I need your help.

Dic - Help? I beth?

Wendy - Dw i ar y jeriatic ward yr wythnos 'ma...

Dic - Ie, ie...Dw i'n gwbod hynny...ddwedest ti dydd Sul...

Wendy - A mae 'na hen foi 'na...A real sweetie...Mr Caudwell...Enw Saesneg ond mae e'n siarad Cymraeg pert...

Dic - Beth amdano fe? Beth yw'r broblem?

Wendy - Rheumatoid arthritis drwg...You should see his fingers...they're so swollen...even his knuckles are like a bunch of grapes, honest to God...and when he was admitted his temperature was sky high...

Dic - Ar ba foddion mae e?

Wendy - Indomethacin...tair gwaith y dydd...

Dic - Beth am dihydrocodeine?

Wendy - Yeah...30 to 60 milligrams every four to six hours as required...and now he's also had some ferrous sulphate...

Dic - Ydy e'n well 'te?

Wendy - Ydy...

Dic - Gwd. Dyna ni 'te...Beth yw'r broblem?

Wendy - Maen nhw eisiau fe mas.

Dic - Mas?

Wendy - Ydyn. Mas o'r ysbyty. Maen nhw eisiau iddo fe fynd yn ôl gartre. As of today. As of now really. Achos eu bod nhw eisiau'r gwely i rhywun arall.

Dic - Ydy e'n ddigon da i fynd gartre?

Wendy - Nag ydy! And don't give me this 'value for money' constraint crap on the N.H.S. We're talking about an old man who can hardly look after himself... Dw i'n meddwl ei fod e'n disgraceful.

Dic - Edrycha: junior doctor ydw i. Os wyt ti am wneud cwyn...well iti fynd at y Senior House Officer...

Wendy - And do you honestly think that he would take the slightest blind bit of notice of what a trainee nurse has to say?

Dic - Reit. O.K.

Wendy - O.K. Beth? Beth wyt ti'n mynd i wneud?

Dic - Ar hyn o bryd: nawr: yr eiliad yma: dim...

Wendy - Dim...?

Dic - Na...

Wendy - Pam?

Dic - Wy ar y'n ffordd i'r X-ray suite...A gweud y gwir, well i fi fynd - dw i'n hwyr ...

Wendy - Beth wna' fi am Mr Caudwell 'te?

Dic - Siarada gyda Sister Rees...

Wendy - Well, that'll do me a fat lot of good...

Dic - ...Wela i ti nes ymlaen...

Wendy - You just don't want to get involved, do you? Mae'n rhaid i fi wneud rhywbeth...

Golygfa 2

Agnes - ...pedwar...tri...dau...dau...

Llais Arwyn - Dydy Arwyn na Jenny Saunders ddim i mewn ar y foment/Arwyn and Jenny Saunders aren't in at the moment...Ond os ydych chi am adael neges/If you want to leave a message/Plis gwnewch hyn ar ôl y blip/Please do so after the bleep...

Agnes - ...Ymmm.....Jenny.....Agnes sy 'ma.....jystelli di ffono fi nôl pan gei di gyfle...dim byd pwysig...a does dim lot o hast...dw i jyst eisiau checkio...wel, dw i jyst eisiau gwbod pa noson welest ti Brian yn y restaurant 'na yn Llaniwan...? Dyna'r cyfan...Sori i haslo ond ...roeddwn i moyn gwneud yn.....

Agnes - Dw i'n gorfod mynd...Hwyl. Dewch i mewn...

Wendy - Fi sy' 'ma...

Agnes - Nyrs Keating...Sut alla i'ch helpu chi?

Ysbyty Brynaber: Episode 30

Agnes is quizzing Jenny Saunders about the evening when they met Brian at the restaurant. Wendy and Dic go to the local funfair where they come across Agnes and Brian on the dodgems.

Geirfa

peiriant	machine
diflas	miserable
lonydd (NW)	roads
tanio	to fire
parablu	to chatter

Golygfa 1

Agnes - Helo? Agnes Rees...

Jenny - Jenny, Agnes...

Agnes - O, shw'mai?

Jenny - lawn...Oedd neges gen ti ar y peiriant...

Agnes - Oedd...Dyna ti...Ffoniais i brynhawn ddoe...

Jenny - Sori bod fi heb ddod nôl atat i cyn hyn ond roeddwn i allan trwy'r nos neithiwr a ddes i ddim nôl tan yn hwyr...Sut alla i dy helpu di, Agnes?

Agnes - ...Emmm...Jyst meddwl roeddwn i...Sori - mae hyn yn swnio fel taswn i'n amau Brian.....

Jenny - Amau Brian?

Agnes - Ie. Ond dw i'n hastu i ddweud dydw i ddim, cofia! Ond ti'n gwybod pan est ti ac Arwyn mas i'r restaurant newydd 'na'n Llaniwan?

Jenny - Y noson welon ni Brian...?

Agnes - ...Dyna ti...Faint o gloch oedd hynny?

Jenny - Yyyy...Gad mi weld...Dechrau'r nos...Ddim yn rhy hwyr...Dw i ddim yn cofio...Tua wyth o'r gloch...

Agnes - Wyth o'r gloch...?

Jenny - Ie...Wyth o gloch...Neu falle hanner awr wedi ...A dweud y gwir, mi aeth Arwyn a fi ar goll...

Agnes - Do?

Jenny - Do. Mae lonydd bach cefn gwlad i gyd yn edrych yr un fath yn y nos on'd ydyn?

Pam? Be sy'n dy boeni di, Agnes?

Agnes - Dim...

Jenny - Siwr?

Agnes - Ydw, ydw...

Jenny - Beth? Oedd Brian wedi deud wrthot ti ei fod o'n rhywle arall? Dyna be sy?

Agnes - Na, na. Na, na, ddim o gwbl. Na, na, dw i'n trysto Brian a 'mywyd.

Jenny - Mae hynna'n beth braf i glwad...

Agnes - Ydy. Ac rydyn ni i gyd yn mynd mas i'r Ffair heno. Mae Rhodri wedi bod yn mynd ymlaen ac ymlaen am y peth ers dechau'r wythnos...

Golygfa 2

Dic - Oi! Beth ti'n 'neud, Wend?

Wendy - Minda dy fusnes...

Dic - Dal y blincin gwn yn llonydd er mwyn dyn!

Wendy - Hisst!

Dic - Y cylch coch bach 'na yn y canol. Tria bwrw hwnna - O.K.? Ddim y tedi bers a'r mygiau a'r tegannau ar y silffoedd....

Wendy - You just concentrate on your shooting and I'll concentrate on mine, right, pal? And see who gets the coconut at the end...In my mind's eye I'm not seeing a red circle...

Dic - O, na?

Wendy - Na...

Dic - Beth ti'n weld 'te?

Wendy - Sister Agnes Rees. Cow. Yes! Gotcha! Bitch! Es i ati hi ddoe i siarad am yr hen Mr Caudwell, reit? Dweud bod hi'n hollol 'rong i pwsho fe mas o'r ysbyty a hala fe nôl gartre. A dwedodd hi wrtho i i mindo musnes a jyst 'neud fy jobyn...Cheek!

Wendy - A ti'n dweud bod fi'n hopeless? Ti'n bell off y marc, gwd boi...! Ha!
 Dic - Ti oedd yn parhau yn y nglust i...
 Wendy - Dydy'r dyn 'na ddim yn mynd i allu byw gartre ar ei ben ei hunan. Sut mae e'n mynd i wneud bwyd? E? Fydd e wedi marw o heipothermia cyn y Nadolig, gei di weld...
 Dic - A beth ti'n ddisgwyl i fi wneud am y peth?
 Wendy - Fel dwedes i wrthot ti neithiwr yn y pyb: mae lot mwy o clout gyda ti na sy gyda fi...
 Dic - Polisi yw polisi, Wendy. Does dim mwy o clout gyda fi na sy gyda ti...
 Wendy - Well, I think the policy stinks.

Golygfa 3

Agnes - Cymer ofal nawr, Rhodri...Cofia fod Beca gyda ti...A ti ddim eisiau anafu dy chwaer wyt ti?
 Rhodri - Paid â mynd 'on', Mam...Dw i'n O.K. - O.K.?
 Agnes - Ydy'r gwregys 'na wedi cau amdanoch chi'ch dau?
 Rhodri - Ydy, ydy...Pam dydyn ni ddim yn cael mynd?
 Agnes - Amynedd, grwt! Gewch chi fynd nawr....
 Brian - Tyrd i mewn i'r dodgem 'ma hefo fi, Agnes.
 Agnes - Oes rhaid?
 Brian - Bydd hi'n haws cadw llygad ar y plant. Na, na...Tynn y strap 'ma ffordd hyn...Dyna ti - fel'na...
 Agnes - Does dim llawer o le 'ma...
 Brian - Fyddwn ni'n champion...
 Agnes - Daliwch yn sownd Rhodri a Beca!
 Rhodri - Paid â ffysian, Mam! Rydyn ni'n O.K.!
 Brian - Dyma ni off!
 Dic - Wheeeee!
 Wendy - Iahwwwww! Turn the wheel! Turn the wheel!
 Dic - Hei, hei, hei! Paid!
 Wendy - Rydyn ni mewn gridlock fan hyn!
 Dic - Gollwng y llyw, Wendy! Ti fel maniac!
 Wendy - Tro ffordd 'na!
 Dic - Dw i'n trio 'ngorau! Paid!
 Wendy - Myn yffach i! Erycha pwy sy draw fan'co. That heartless bitch...!
 Dic - Y?
 Wendy - Agnes Rees....Go on! Ram her. Head on collision. Mae'r ast yn haeddu hynny!
 Dic - Paid! Paid!
 Wendy - Straight towards them! Full steam ahead! Go for the iceberg, captain!
 Dic - Pwy sy'n gyrru? Ti neu fi?
 Wendy - Edrycha ar eu hwynebaw nhw, Dic!
 Dic - Dal yn dynn! Dal yn dynn!
 Wendy - Un, dau tri...Aaaaghhh!
 Brian - Watshiwch lle rydych chi'n mynd wnewch chi? Diawlad gwirion! 'Dydych chi ddim chwarter call...!

Synopsis

Agnes is still intrigued as to what her husband Brian was really up to when he met Arwyn and Jenny in the restaurant in Llaniwan. She decided to quiz Jenny again on when exactly Brian was at the restaurant. Jenny asked whether she had any doubts about Brian to which she replied:

Na, na, na, dw i'n trystio Brian â 'mywyd - No, no, no I trust Brian with my life was her response.

Brian and Agnes took their children to the funfair. Dic and Wendy were having fun on the dodgems - they make a b-line for Agnes Rees' car and give it quite a thump. Brian was extremely angry...

Test yourself

1. What is the Welsh for 'wouldn't go'?
 - a) Fyddden ni ddim yn mynd
 - b) Fyddda i ddim yn mynd
 - c) **Fyddwn ni ddim yn mynd**
2. Translate 'to tell him' into Welsh
 - a) Dweud iddo fe
 - b) **Dweud wrtho fe**
 - c) Dweud ato fe
3. What is the Welsh verb for 'to doubt'?
 - a) ambell
 - b) aml
 - c) **amau**
4. What's the word in south Wales for 'exactly'?
 - a) yn wir
 - b) yn debygol
 - c) **yn gwmws**
5. What's the Welsh for 'thieves'?
 - a) lleidr
 - b) **lladron**
 - c) lladd
6. How would you translate the Welsh phrase 'let me see'?
 - a) **gad i mi weld**
 - b) gad iddyn nhw weld
 - c) gadewch iddi hi weld